# CYNGOR TREF Y RHYL

Nodiadau'r cyfarfod yn dilyn cyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd nos Fercher, 15 Gorffennaf 2026

## PRESENNOL

Y Cynghorydd W. Price (Dirprwy Faer)

Y Cynghorwyr: Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, C. L. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mr R. S. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, T. Thomas, A. Walker a Cheryl Williams.

Hefyd yn bresennol:

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc

## Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE.

## Datgan buddiannau

Gwnaeth y Cynghorwyr A. R. James a Mrs E. M. Chard ddatgan buddiant personol yn eitem rhif 11 ar yr agenda (Ymgynghoriad: Awdurdod Trwyddedu Sir Ddinbych – fersiwn ddrafft y Datganiad o Egwyddorion o dan Ddeddf Gamblo 2005) gan eu bod yn aelodau Pwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir Ddinbych. Parhaodd y ddau yn y cyfarfod, gan gymryd rhan yn y trafodaethau a'r pleidleisio ar y mater.

## Cofnod o'r penderfyniadau a wnaed

1. Cyhoeddodd y Clerc bod swydd wag Cynghorydd Cymuned i gynrychioli ward Bodfor, a fyddai'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 16 Gorffennaf 2026.
2. Cymeradwywyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ym mis Mehefin.
3. Cadarnhawyd taliadau Atodlen A.
4. Cadarnhawyd taliadau Atodlen B i'w talu.
5. Derbyniwyd adroddiad perfformiad y buddsoddiadau ar gyfer Chwarter 1 2026/27.
6. Derbyniwyd adroddiad y cyfrifon ariannol ar gyfer Chwarter 1 2026/27.
7. Derbyniwyd fersiwn ddrafft Datganiad o Egwyddorion o dan Ddeddf Gamblo 2005 Cyngor Sir Ddinbych fel dogfen ymgynghori.
8. Cymeradwyodd yr aelodau gais gan Glwb Hanes y Rhyl i ystyried prynu coed afalau 'Rhyl Beauty', a chyfeiriwyd y mater i'r Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd i'w roi ar waith.

9. Cymeradwyodd yr aelodau gais gan y Cynghorydd C. Jones i ychwanegu eitem sefydlog ar agendâu’r Cyngor yn y dyfodol er mwyn dilyn cynnydd bwrdd ‘Ein Rhyl’.
10. Clerc y Dref i ofyn an gyngor gan ddarparydd goleuadau Nadolig cyfredol y Cyngor Tref ynghylch yr arddangosfa oleuadau eleni.
11. Cymeradwyodd yr aelodau fod Clerc y Dref yn dechrau’r trefniadau blynyddol i gyflenwi tân gwyllt yn y digwyddiad i’w gynnal ar 5 Tachwedd eleni.
12. Cymeradwyodd yr aelodau’r trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol yn ystod cyfnod gwyliau mis Awst.